# Cofnodion

## Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Awst 2022

1 **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth: 2022/13 - Pryderon Trigolion T?-du am y Gamlas a Bywyd Gwyllt Lleol**

**Gofynnodd y Cynghorydd Reeks:**

Mae teimlad cryf ymhlith trigolion Tŷ-du ei bod yn ymddangos bod Cyngor Dinas Casnewydd yn ddi-hid glŷn â chyflwr Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, sy'n prysur waethygu. Mae'r isadeiledd mewn cyflwr gwael, mae'r ychydig ddŵr sy'n mynd i mewn i'r gamlas yn draenio i ffwrdd, mae llystyfiant yn gordyfu ac yn meddiannu llwybr y gamlas ac mae'r bywyd gwyllt yn cael ei orfodi o'i gynefin naturiol.

A fyddai'r Aelod Cabinet yn cytuno â fi fod y dirywiad yma'n niweidiol i'r amgylchedd lleol, yn achosi trallod i fywyd gwyllt ac yn difetha'r ardal leol ac atyniad twristiaeth boblogaidd Canolfan Ymwelwyr y Pedwar Loc ar Ddeg, a bod gennym fel cyngor gyfrifoldeb i warchod yr amgylchedd a sicrhau ei gynaliadwyedd a'i drigolion? A all yr Aelod Cabinet gynghori pa gamau y gallant eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon ar frys ac adfer y gamlas a'r ardal i amgylchedd naturiol ffyniannus eto?

**Ymatebodd y Cynghorydd Forsey:**

Mae llawer o sylw wedi'i roi i'r ffaith bod lefelau dŵr isel yng Nghamlas Sir Fynwy a Brycheiniog yng Nghasnewydd yn cael eu hachosi gan faterion y tu allan i ffiniau'r ddinas. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau partner fel Cyfoeth Naturiol Cymru, cynghorau cyfagos a'r Ymddiriedolaeth Camlesi i reoli lefelau'r dŵr a llif y dŵr drwy'r system.

Fodd bynnag, rydym wedi ein cyfyngu gan gyfaint y dŵr sydd ar gael o rannau uwch y system sy'n profi problemau. Cafodd y sianel ei chlirio ychydig yn y misoedd diwethaf, ond yn anffodus nid oedd yn ddigon i wella lefelau oherwydd diffyg glaw. Rydym yn ymwybodol bod lefelau dŵr yn isel ond ar hyn o bryd nid oes ffynonellau dŵr i ddargyfeirio i'r ardal hon. Yn ffodus, symudwyd y rhan fwyaf o'r pysgod o'r pwll hwn i rannau eraill lle mae'r lefelau'n ddigonol, felly ni ddylai fod effaith fawr ar y rhywogaethau dyfrol, ond rydym yn gwerthfawrogi bod pobl yn poeni am yr adar dŵr ac adar eraill a byddwn yn monitro'r sefyllfa.

Mae'r Cyngor yn ceisio arian i ddad-siltio ac ail-leinio'r sianel ac i gwblhau gwaith arall. Mae tua saith milltir o gamlas o fewn dinas Casnewydd ac mae'n rheoli'r ased gymunedol hon gydag adnoddau cyfyngedig. Lle bo'n bosibl, rydym wedi defnyddio adnoddau allanol i fynd i'r afael â materion fel cynnal a chadw'r arwyneb a rheoli'r tir, drwy greu llwybrau teithio llesol ar hyd y llwybrau tynnu. Mae gwaith amhrisiadwy hefyd yn cael ei wneud gan grwpiau gwirfoddol yr Ymddiriedolaeth Camlesi a'r Gwasanaeth Cefn Gwlad.

Rydym yn deall rhwystredigaethau pobl leol yn llwyr a byddwn yn parhau i chwilio am arian i wella'r gamlas ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned am unrhyw waith a allai gael ei wneud i helpu i leddfu'r sefyllfa.